GWEFANNAU MOSTYN (Oriel Mostyn Cyfyngedig)
POLISI PREIFATRWYDD
Ionawr 2019

Mae Oriel Mostyn Cyfyngedig (cyfeirir ati ar ôl hyn fel MOSTYN) wedi ymrwymo i warchod a pharchu eich preifatrwydd. Mae'r polisi hwn yn weithredol pan fyddwch yn defnyddio gwefannau MOSTYN (www.mostyn.org / www.llawn.org / www.mostynedge.org) a rhestrau e-bost MOSTYN.

Mae'r polisi hwn yn datgan ar ba sail y bydd unrhyw ddata personol y bydd MOSTYN yn ei gasglu gennych chi, neu y gallech ei roi i MOSTYN, yn cael ei brosesu. Gofynnwn i chi ddarllen y canlynol yn ofalus i ddeall sut yr ydym yn casglu ac yn defnyddio eich data personol.

I ddibenion Deddf Diogelu Data 1998 (y Ddeddf), y rheolydd data yw:
MOSTYN, 12 Stryd Vaughan, Llandudno, Conwy LL30 1AB

Ein cynrychiolydd enwebedig i ddibenion y Ddeddf yw Alfredo Cramerotti, Cyfarwyddwr MOSTYN.

Mae MOSTYN yn casglu data ar

i. ymwelwyr â **GWEFANNAU MOSTYN** trwy gyfrwng Cwcis
ii. tanysgrifwyr i **restrau e-bost MOSTYN** trwy wefannau MOSTYN / LLAWN ffurflenni cofrestru
iii. Arddangosfa cais agored - **ceisiadau/cyflwyniadau ar-lein** (MOSTYN Agored)

GWEFANNAU
Pa wybodaeth sy'n cael ei chasglu?
Mae gwefannau MOSTYN yn defnyddio cwcis i storio gwybodaeth ar eich cyfrifiadur ac i olrhain gweithgarwch ymwelwyr yn ddienw.

Pam mae'r wybodaeth yn cael ei chasglu?
Mae rhai cwcis ar y safle'n hanfodol, ac ni fyddai'r safle'n gweithio'n ôl y disgwyl hebddynt. Mae'r cwcis hyn yn cael eu gosod pan fyddwch yn cyflwyno ffurflen, yn mewngofnodi neu'n rhyngweithio â'r safle trwy wneud rhywbeth sy'n mynd y tu hwnt i glicio ar ddolenni syml.

Rydym hefyd yn defnyddio rhai cwcis nad ydynt yn hanfodol i olrhain ymwelwyr neu i wella eich profiad o'r safle.

Sut fydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio?
Rydym yn defnyddio Google Analytics i gasglu gwybodaeth am sut mae ein hymwelwyr yn defnyddio ac yn gwelywio drwy wefannau MOSTYN. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i adrodd i gyllidwyr fel Cyngor Celfyddydau Cymru ac i ddadansoddi defnydd o'r wefannau fel y gallwn weithio'n barhaus i ychwanegu nodweddion newydd ac i wella eich profiad ohoni.

Mae'r cwcis yn casglu gwybodaeth, fel nifer yr ymwelwyr â'r safle, pa dudalennau maent yn ymweld â hwy ac o ble maent wedi dod i'r safle. Mae'r wybodaeth hon yn ddienw ac ni ellir ei defnyddio i'ch adnabod yn bersonol.

Sut i ddirymu cydsyniad
Os nad ydych yn hapus â hyn, ni fyddwn yn gosod y cwcis hyn ond efallai na fydd rhai o nodweddion gorau'r safle ar gael. Gallwch roi neu ddirymu caniatâd ar gyfer cwcis trwy glicio ar yr eicon yng nghornel chwith isaf ffenestr eich porwr.

RHESTRAU E-BOST MOSTYN / LLAWN

Pa wybodaeth sy'n cael ei chasglu?
Pan fyddwch yn ymuno â rhestrau e-bost MOSTYN / LLAWN dim ond eich cyfeiriad e-bost a rhai opsiynau tanysgrifio sy'n diffinio'r wybodaeth rydych am ei chael gennym sy'n cael eu casglu.

Gallwn, o bryd i'w gilydd, gynnal arolygon o ymwelwyr, ond nid oes yn rhaid i chi gymryd rhan ynddynt. Bydd gwybodaeth a gesglir drwy'r dull hwn yn cael ei chymryd o'r gronfa ddata o danysgrifwyr a bydd yn cael ei phrosesu ar wahân i'ch data personol.

Pam mae'r wybodaeth yn cael ei chasglu?
Pan fyddwch yn tanysgrifio i restr e-bost MOSTYN / LLAWN rydych yn rhoi caniatâd i'ch cyfeiriad e-bost gael ei ddefnyddio i gael y newyddion diweddaraf a gwybodaeth am arddangosfeydd, digwyddiadau, gweithgarwch codi arian a chynigion arbennig.

Mae eich cyfeiriad e-bost a'ch opsiynau tanysgrifio'n ein galluogi i anfon gwybodaeth atoch am y gweithgareddau a gynhelir gan MOSTYN / LLAWN sydd fwyaf perthnasol i chi. Gallwch ddewis cael gwybodaeth am Arddangosfeydd / Digwyddiadau'n unig, Gweithgareddau Teuluol yn unig neu gael gwybodaeth am holl weithgareddau MOSTYN.

Gallwn, o bryd i'w gilydd, ofyn am eich cefnogaeth neu ofyn cwestiynau pellach i'n helpu i ddeall ein cronfa o ddefnyddwyr yn well. Mae'r data yn ein helpu i ledaenu ein gweithgarwch codi arian neu i fonitro a gwella ein strategaeth gyfathrebu ac i adrodd i'n cyllidwyr am broffil ein cynulleidfa.

Sut fydd yr wybodaeth yn cael ei storio a'i defnyddio?
Pan fyddwch yn cwblhau ffurflen adborth MOSTYN / LLAWN neu'n cofrestru i gael negeseuon e-bost yn yr oriel, bydd dolen yn cael ei hanfon atoch i danysgrifio i restr e-bost MOSTYN / LLAWN trwy wefannau MOSTYN / LLAWN. Mae hyn yn ein galluogi i gydymffurfio'n llawn â chanllawiau Diogelu Data trwy sicrhau eich bod yn cydsynio i'ch data gael ei ddefnyddio'n unol â'r Polisi Preifatrwydd hwn.

Pan fyddwch yn tanysgrifio i restr e-bost MOSTYN / LLAWN trwy wefannau MOSTYN / LLAWN, bydd eich cyfeiriad e-bost a'ch opsiynau tanysgrifio'n cael eu storio ar weinydd diogel 'MailChimp' (rhagor o wybodaeth am ddiogelwch data MailChimp).

Ni fyddwn yn rhannu eich data personol ag unrhyw drydydd parti. Bydd yn cael ei gadw'n ddiogel at ddefnydd MOSTYN yn unig.

Am ba hyd fyddwn ni'n cadw'r data?
Bydd gwybodaeth bersonol (eich cyfeiriad e-bost) ar ffurflenni adborth neu ffurflenni tanysgrifio i'n rhestrau e-bost yn cael eu gwaredu'n ddiogel cyn gynted ag y byddwn wedi anfon e-bost atoch i gadarnhau eich tanysgrifiad trwy wefannau MOSTYN / LLAWN.
Ar ôl tanysgrifio, bydd eich cyfeiriad e-bost a'ch gwybodaeth danysgrifio'n cael eu cadw ar weinydd diogel 'MailChimp' tan i chi dynnu eich cydsyniad yn ôl drwy ddatdanysgrifio.

Sut i ddatdanysgrifio o restr e-bost MOSTYN / LLAWN
Gallwch ddatdanysgrifio o restr e-bost MOSTYN / LLAWN ar unrhyw adeg trwy glicio ar y ddolen 'Datdanysgrifio' ar waelod negeseuon e-bost neu trwy anfon e-bost i post@mostyn.org
Mae croeso i chi danysgrifio eto'n ddiweddarach os byddwch yn dewis.

MOSTYN Agored - cyflwyno ceisiadau
Pa wybodaeth fydd yn cael ei chasglu?
Pan fyddwch chi'n cyflwyno cais i MOSTYN Agored, bydd data gan gynnwys eich enw a'ch manylion cyswllt yn cael eu casglu drwy'r llwyfan Typeform (Polisi Preifatrwydd a Thelerau Gwasanaeth Typeform - yn Saesneg yn unig) a bydd eich manylion talu yn cael eu prosesu gan y llwyfan talu diogel Stripe (Polisi Preifatrwydd Stripe - yn Saesneg yn unig).

Pam mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu?
Mae'r wybodaeth yn cael ei chasglu er mwyn ein galluogi ni i brosesu, cymryd taliadau a chysylltu â chi ynghylch eich cais i MOSTYN Agored.

Sut bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio?
Bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio at y dibenion a ddisgrifir uchod yn unig. Ni fydd yn cael ei rhannu â thrydydd partïon.

Am ba mor hir y byddwn ni'n cadw'r data?
Drwy gyflwyno cais i MOSTYN Agored, byddwch yn cytuno i'ch data gael eu cadw fel y disgrifir uchod. Bydd eich data personol yn cael eu cadw nes bydd yr holl brosesau dethol wedi'u cwblhau, neu'n gynharach os byddwch yn gofyn i ni ddileu eich

gwybodaeth cyn hyn. Cewch eich gwahodd i ymuno â rhestr bostio MOSTYN drwy wefan MOSTYN. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth at y diben hwn nes y byddwch yn tynnu eich cydsyniad yn ôl neu'n dad-danysgrifio fel y disgrifir uchod.

Sut mae tynnu eich cydsyniad yn ôl?

Gallwch ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol/talu drwy anfon e-bost i open@mostyn.org

CYFFREDINOL

Sut allaf fi weithredu fy hawliau?

Mae gennych chi hawl i gysylltu ag unrhyw 'reolydd data' (fel MOSTYN) i ofyn am wybodaeth am sut a pham mae eich data'n cael ei ddefnyddio. Mae hyn yn cynnwys Hysbysiad Toramod, Hawl i Fynediad, yr Hawl i Gael eich Anghofio a Chludadwyedd Data.

Os hoffech chi gysylltu â MOSTYN ynghylch eich data, defnyddiwch y manylion cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon.

Newidiadau i'r Polisi Preifatrwydd hwn

Rydym yn cadw'r hawl i newid y Polisi Preifatrwydd hwn ar unrhyw adeg heb rybudd ymlaen llaw. Bydd unrhyw newidiadau'n weithredol ar unwaith ar ôl cyhoeddi'r Polisi Preifatrwydd diwygiedig.

Gwybodaeth am Ddiogelu Data

Cewch ragor fanylion am Fil Diogelu Data'r DU (https://inorganic/for-organisations/data-protection-bill/
Cewch ragor fanylion am Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE (GDPR) (https://word-processing/).

Dolenni

Mae www.mostyn.org / www.llawn.org / www.mostynedge.org yn cynnwys dolenni at wefannau eraill – cofiwch pan fyddwch yn clicio ar unrhyw un o'r dolenni hyn y byddwch yn mynd i wefan arall ac y bydd eu telerau, eu hamodau a'u polisïau hwy'n weithredol pan fyddwch yn ymweld â'u tudalennau, ac y gall y rhain fod yn wahanol i'n rhai ni.

Manylion Cyswllt

Gallwch gysylltu â ni ar unrhyw adeg trwy anfon e-bost i post@mostyn.org
Gallwch hefyd ysgrifennu atom yn: MOSTYN, 12 Stryd Vaughan, Llandudno LL30 1AB